## Ysgolion Abertawe: Canllawiau i Rieni, Gofalwyr ac Ymwelwyr ar Ymddygiad Derbyniol

Mae pob ysgol yn Abertawe'n ymdrechu i feithrin amgylchedd sy'n addas i ddysgu a pharch cyffredin tuag at holl aelodau ein cymunedau ysgolion. Rydym yn gwerthfawrogi'r bartneriaeth rhwng rhieni/gofalwyr, ymwelwyr, a staff ysgol wrth greu profiad addysgol cadarnhaol i'n dysgwyr. Fel rhan o'n hymrwymiad i gynnal amgylchedd diogel a chefnogol, rydym wedi datblygu'r ddogfen hon i bennu ymddygiad derbyniol gan rieni/ofalwyr, ymwelwyr a thrydydd partïon ar draws gwahanol gyd-destunau, gan gynnwys rhyngweithiadau wyneb yn wyneb, cyfathrebu drwy grwpiau cyfryngau cymdeithasol/WhatsApp, a rhyngweithiadau yn y gymuned. Bwriad y canllawiau hyn yw hyrwyddo parch cyffredin, proffesiynoldeb a chyfathrebu adeiladol ymhlith holl aelodau ein cymunedau ysgolion.

### Diffiniad o ymddygiad annerbyniol

Rydym o'r farn bod ymddygiad neu iaith ymosodol, ddifrïol neu sarhaus yn peri risg i staff neu ddisgyblion. Mae ymddygiad annerbyniol yn gwneud i aelod o staff neu ddisgybl deimlo dan fygythiad. Gall hyn ddeillio o gyswllt wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy gyfathrebu ysgrifenedig (gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol). Heb fod yn rhestr gynhwysfawr, mae'r canlynol yn ceisio darparu darluniau o'r fath ymddygiad:

- unrhyw fath o sarhad fel ymgais i ddifrïo rhywun, codi cywilydd arno neu ei danseilio
- unrhyw fath o fygythiad
- codi llais er mwyn dychryn rhywun
- cyfathrebu parhaus â staff a/neu'r ysgol
- dychryn corfforol, e.e. drwy sefyll yn agos iawn at rywun neu ddefnyddio ystumiau llaw ymosodol
- defnyddio iaith anweddus neu ddifrïol
- defnyddio iaith wahaniaethol, gan gynnwys iaith hiliol a homoffobig, ac iaith sy'n gwahaniaethu yn erbyn menywod neu bobl abl
- unrhyw fath o gam-drin corfforol
- honiadau sy'n flinderus neu'n faleisus.
- camddefnyddio e-bost a/neu blatfformau ysgol, e.e. ClassDojo.

Rydym yn cydnabod ac yn parchu cefndiroedd diwylliannol ac ieithyddol amrywiol ein cymunedau. Rydym yn deall y gall dulliau cyfathrebu, ystumiau ac ymadroddion amrywio'n sylweddol ar draws diwylliannau. Fodd bynnag, rydym yn pwysleisio bod yn rhaid i bob cyswllt ddangos parch a bod yn anfygythiol, waeth beth fo'r gwahaniaethau diwylliannol.

Credwn fod cyfathrebu clir a disgwyliadau cyson yn hanfodol ar gyfer meithrin amgylchedd ysgol cydweithredol sy'n llawn parch. Felly, gofynnwn i bob rhiant/gofalwr, ymwelydd a thrydydd parti ymgyfarwyddo â'r canllawiau canlynol a chadw at yr egwyddorion hyn ym mhob cyswllt â staff ysgol a rhanddeiliaid eraill ysgol.

Diolch am eich cydweithrediad a'ch ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn sy'n diffinio ein cymunedau ysgolion, sef parch, caredigrwydd a chydweithrediad.

## Ymddygiad Derbyniol

### Wyneb yn wyneb

*Cyfathrebu Llawn Parch*: Rhaid i rieni/ofalwyr ddangos parch a chwrteisi a bod yn ddiwylliannol sensitif wrth gyfathrebu â staff ysgol, rhieni/gofalwyr eraill, a dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys defnyddio iaith, tôn ac ymddygiad priodol yn ystod rhyngweithiadau wyneb yn wyneb, galwadau ffôn, e-byst, ac unrhyw fath arall o gyfathrebu. Rydym yn cydnabod y gall dulliau cyfathrebu, tôn ac ymadroddion fod yn wahanol ar draws diwylliannau, ond rydym yn annog y defnydd o iaith ac ymddygiad sy'n blaenoriaethu parch cyffredin a chyd-ddealltwriaeth.

*Partneriaeth Gydweithredol*: Rhaid i rieni/ofalwyr gydweithio'n weithredol â'r ysgol i gefnogi addysg eu plentyn. Mae hyn yn cynnwys mynd i gyfarfodydd rhwng rhieni/gofalwyr ac athrawon, cymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau ysgol, a chyfrannu'n gadarnhaol at gymuned ysgol. Rydym yn cydnabod efallai na fydd pob rhiant/gofalwr yn gallu cymryd rhan i'r un graddau oherwydd amgylchiadau diwylliannol, ieithyddol neu bersonol. Mae ein hysgolion wedi ymrwymo i feithrin cyfleoedd cynhwysol ar gyfer ymgysylltu. Mae meithrin partneriaeth gref rhwng rhieni/gofalwyr a'r ysgol yn hanfodol ar gyfer llwyddiant a lles dysgwyr.

*Polisïau Ysgol*: Rhaid i rieni/ofalwyr ymgyfarwyddo â holl bolisïau a chanllawiau ysgol a chadw atynt. Mae'r rhain wedi'u cynllunio i sicrhau diogelwch, cynhwysiant, ac amgylchedd dysgu cadarnhaol i bawb. Mae hyn yn cynnwys dilyn gweithdrefnau ar gyfer gollwng a chasglu, parchu eiddo'r ysgol a chydymffurfio â rheolau ynghylch cyfranogiad rhieni mewn gweithgareddau ysgol. Drwy barchu a dilyn y polisïau hyn, mae rhieni/gofalwyr yn cyfrannu at amgylchedd ysgol diogel, trefnus a chytûn i'r holl ddysgwyr a staff.

### Cyfryngau Cymdeithasol/Grwpiau WhatsApp/Platfformau Ysgol Ar-lein

*Cyfathrebu Cyfrifol*: Rhaid i rieni/ofalwyr fod yn gyfrifol a dangos parch wrth gyfathrebu drwy gyfryngau cymdeithasol, grwpiau WhatsApp a phlatfformau ar-lein, fel ClassDojo sy'n gysylltiedig â'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys ymatal rhag postio neu rannu cynnwys sy'n amhriodol, yn sarhaus neu'n ymfflamychol. Rhaid i rieni/ofalwyr hefyd osgoi cymryd rhan mewn seiberfwlio neu ledaenu sibrydion a allai effeithio'n negyddol ar gymuned ysgol.

*Preifatrwydd a Chyfrinachedd:* Rhaid i rieni/ofalwyr barchu preifatrwydd a chyfrinachedd eraill wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, grwpiau WhatsApp a phlatfformau ysgol ar-lein. Mae hyn yn cynnwys ymatal rhag rhannu gwybodaeth sensitif neu gyfrinachol am ddysgwyr, athrawon neu ddigwyddiadau ysgol heb ganiatâd priodol. Rhaid i rieni/ofalwyr hefyd fod yn ymwybodol o'r ffiniau rhwng trafodaethau personol a thrafodaethau sy'n gysylltiedig â'r ysgol dan sylw wrth

ddefnyddio'r platfformau hyn. Yn ogystal, ni ddylai rhieni/gofalwyr darfu ar aelodau staff drwy eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol, fel gofyn i staff eu dilyn. Yn ogystal, peidiwch â chysylltu â staff y tu allan i oriau ysgol oni bai am argyfwng neu fater sy'n uniongyrchol gysylltiedig â lles uniongyrchol eich plentyn.

*Ymgysylltu Adeiladol*: Rhaid i rieni/ofalwyr ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a grwpiau WhatsApp fel platfformau i ymgysylltu mewn modd adeiladol a chydweithredu â staff ysgol a rhieni/gofalwyr eraill. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn trafodaethau sy'n ymwneud â digwyddiadau, mentrau a pholisïau ysgol mewn modd cadarnhaol a chynhyrchiol. Rhaid i rieni/ofalwyr hefyd geisio eglurhad neu fynegi pryderon drwy'r sianeli priodol yn hytrach na defnyddio fforymau cyhoeddus ar gyfer achwyniadau neu gwynion. Yn ogystal, mae'n bwysig peidio â gwneud datganiadau difenwol am unigolion neu ysgol, gan y gall y rhain niweidio enw da a chreu gwrthdaro diangen. Drwy hyrwyddo parch wrth gyfathrebu, preifatrwydd, ac ymgysylltu adeiladol, gall rhieni/gofalwyr gyfrannu at amgylchedd ar-lein cadarnhaol a chefnogol mewn cymuned ysgol.

**Ymddygiad Cyffredinol tuag at Staff**

*Parch a Chwrteisi*: Rhaid i rieni/ofalwyr ddangos parch a chwrteisi tuag at holl staff ysgol, gan gynnwys athrawon, staff cymorth, staff gweinyddol a gwirfoddolwyr. Gan gydnabod y gall normau diwylliannol ynghylch cyfathrebu, awdurdod a rhyngweithio amrywio, rydym yn annog rhieni/gofalwyr i ryngweithio â staff mewn ffordd gwrtais ac ystyriol, gan wrando'n astud ar eu cyfarwyddiadau neu eu hadborth. Mae'n bwysig peidio â thanseilio awdurdod staff o flaen dysgwyr, ac ymatal rhag defnyddio iaith ddifrïol neu wneud sylwadau amharchus.

*Ymagwedd Gydweithredol*: Rhaid i rieni/ofalwyr fabwysiadu ymagwedd gydweithredol at ryngweithio â staff ysgol, gan gydnabod eu bod yn bartneriaid yn addysg eu plentyn. Gan gydnabod bod rhieni/gofalwyr yn dod o gefndiroedd diwylliannol, ieithyddol a phersonol amrywiol, mae ysgolion wedi ymrwymo i greu cyfleoedd hygyrch a chroesawgar i bob rhiant/gofalwr ymgysylltu. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan weithredol mewn cyfarfodydd rhwng rhieni ac athrawon a digwyddiadau ysgol eraill i feithrin perthynas gadarnhaol ag athrawon a staff. Rhaid i rieni/ofalwyr hefyd fod yn barod i weithio gyda staff ysgol i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu heriau a all godi ynghylch cynnydd neu les eu plentyn.

*Cadw at Ffiniau*: Rhaid i rieni/ofalwyr barchu ffiniau proffesiynol staff ysgol. Er y cydnabyddir y gall gwahaniaethau diwylliannol o ran dulliau cyfathrebu neu fynegi emosiwn weithiau arwain at gamddealltwriaeth, rhaid i rieni/ofalwyr ymdrechu i ymatal rhag ymddwyn mewn modd a allai gael ei ystyried yn fusneslyd neu'n amhriodol. Mae hyn yn cynnwys osgoi ymddygiad herfeiddiol neu ymosodol tuag at aelodau staff, parchu eu hamser a'u llwyth gwaith, a dilyn gweithdrefnau sefydledig ar gyfer mynd i'r afael â phryderon neu gwynion. Drwy barhau i ryngweithio mewn modd parchus a phroffesiynol â staff ysgol, gall rhieni/gofalwyr gyfrannu at amgylchedd ysgol cadarnhaol a chefnogol i bawb.

## Cyswllt Uniongyrchol â Staff yn y Gymuned

*Parchwch Ffiniau Personol*: Rhaid i rieni/ofalwyr barchu ffiniau personol staff ysgol wrth gwrdd â nhw y tu allan i'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys ymatal rhag siarad ag aelodau staff mewn mannau cyhoeddus fel siopau, bwytai neu ddigwyddiadau cymdeithasol oni bai y gwahoddir iddynt wneud hynny. Mae parchu gofod personol a phreifatrwydd yn dangos ystyriaeth o fywyd personol yr unigolyn y tu allan i'w rôl broffesiynol.

*Ymddygiad Proffesiynol*: Rhaid i rieni/ofalwyr gynnal ymarweddiad proffesiynol wrth ryngweithio â staff ysgol mewn lleoliadau cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys ymatal rhag trafod materion ysgol cyfrinachol neu sensitif yn gyhoeddus, yn ogystal ag osgoi ymddygiad herfeiddiol neu ymosodol. Mae dangos cwrteisi a pharch wrth gynnal sgwrs, os yw'n briodol, yn meithrin perthynas gadarnhaol rhwng rhieni/gofalwyr ac aelodau staff y tu allan i amgylchedd ysgol.

*Defnyddio Sianeli Priodol*: Os yw rhieni/gofalwyr yn dymuno trafod pryderon neu ymholiadau sy'n ymwneud ag ysgol ag aelodau staff y tu allan i'r ysgol, rhaid iddynt ddefnyddio sianeli cyfathrebu priodol. Gall hyn gynnwys trefnu cyfarfod, anfon e-bost, neu gysylltu â swyddfa'r ysgol i drefnu amser addas i drafod y mater. Rhaid gwneud hyn yn ystod oriau ysgol bob amser os oes modd. Bydd ysgolion yn hwyluso cyfathrebu hygyrch, er enghraifft drwy gynnig opsiynau hyblyg i rieni/ofalwyr a all wynebu rhwystrau ieithyddol, cyfyngiadau technolegol neu heriau amserlennu. Mae parchu protocolau cyfathrebu sefydledig yn sicrhau bod staff ysgol yn gallu mynd i'r afael â phryderon rhieni'n effeithiol wrth fod yn broffesiynol ac yn bwyllog.

## Cofnodi Rhyngweithiadau

*Cael Caniatâd*: Rhaid i rieni/ofalwyr gael caniatâd gan yr holl bartïon dan sylw cyn recordio unrhyw ryngweithiadau â staff ysgol, rhieni/gofalwyr eraill neu ddysgwyr. Mae hyn yn cynnwys ceisio caniatâd gan yr unigolion sy'n cael eu recordio yn ogystal ag unrhyw unigolion a all gael eu clywed neu eu dangos yn y recordiad. Mae parchu preifatrwydd a chydsyniad pobl eraill yn dangos ystyriaeth ac ymddygiad moesegol. Mae hefyd yn ddoeth cytuno ar amserlen ar gyfer dileu'r recordiad.

*Parchu Cyfrinachedd*: Rhaid i rieni/ofalwyr arfer disgresiwn a pharchu cyfrinachedd rhyngweithiadau sydd wedi'u recordio. Mae hyn yn golygu ymatal rhag rhannu neu ddosbarthu recordiadau heb ganiatâd penodol yr holl bartïon dan sylw, yn enwedig os oes gwybodaeth sensitif neu gyfrinachol. Mae parchu cyfrinachedd yn diogelu preifatrwydd a hawliau unigolion ac yn cynnal ymddiriedaeth yn yr ysgol.

*Defnyddio Recordiadau'n Adeiladol*: Rhaid i rieni/ofalwyr ddefnyddio recordiadau o ryngweithio â staff ysgol at ddibenion adeiladol, megis dogfennu trafodaethau pwysig neu egluro gwybodaeth. Fodd bynnag, ni ddylid defnyddio recordiadau i ddychryn pobl eraill, dylanwadu arnynt neu eu diystyru, ac ni ddylid eu defnyddio i gyhoeddi cwynion neu anghydfodau. Mae defnyddio recordiadau'n gyfrifol yn hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd wrth gyfathrebu mewn modd sy'n dangos parch cyffredin a phroffesiynoldeb.

**Datganiadau i'w Defnyddio gan Ysgol**

*Ymddygiad Parchus*: “Rydym yn disgwyl i bob unigolyn ar safle'r ysgol ymddwyn tuag at ei gilydd mewn ffordd sy’n dangos parch a chwrteisi, gan feithrin amgylchedd dysgu diogel a chadarnhaol i ddysgwyr a staff fel ei gilydd.”

*Dim Goddefgarwch*: “Ni fydd ymddygiad sy'n tarfu ar eraill – gan gynnwys cam-drin geiriol, ymddygiad ymosodol neu fygythiol tuag at unrhyw aelod o'n cymuned ysgol ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain – yn cael ei oddef dan unrhyw amgylchiadau.”

*Cadw at Bolisïau*: “Mae'n ofynnol i bob ymwelydd a rhiant/gofalwr gadw at bolisïau'r ysgol ynghylch ymddygiad ar y safle, gan gynnwys canllawiau ar gyfer rhyngweithio â staff, dysgwyr ac ymwelwyr eraill. Gall methu cydymffurfio arwain at fynediad cyfyngedig neu gamau disgyblu eraill.”

*Cyfrinachedd a Phreifatrwydd*: “Mae parchu cyfrinachedd a phreifatrwydd dysgwyr, staff a rhieni/gofalwyr eraill yn hollbwysig. Ymdrinnir ag unrhyw achosion o rannu gwybodaeth sensitif heb awdurdod neu dorri preifatrwydd fel materion difrifol iawn.”

*Partneriaeth Gydweithredol*: “Rydym yn annog cyfathrebu agored ac ymgysylltu adeiladol rhwng rhieni/gofalwyr, ymwelwyr a staff yr ysgol. Gyda'n gilydd, gallwn greu cymuned gefnogol, gynhwysol a llawn parch lle mae pob unigolyn yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i glywed.”

Gellir arddangos y datganiadau hyn yn amlwg mewn ardaloedd fel mynedfeydd, derbynfeydd neu ar wefan yr ysgol i gyfleu disgwyliadau'n glir i'r holl randdeiliaid.

Drwy weithredu ac atgyfnerthu'r canllawiau hyn yn gyson, gall ysgolion fynd i'r afael yn effeithiol ag ymddygiad annerbyniol gan rieni/ofalwyr ac ymwelwyr a'i liniaru, gan hyrwyddo amgylchedd dysgu diogel ac addas i'r holl randdeiliaid dan sylw.

## Siart Lif ar gyfer y Broses o Reoli Ymddygiad Annerbyniol

| | | |
|---|---|---|
| **Cam rhagarweiniol** Contract | **Pob rhiant i lofnodi contract ymddygiad disgwyliedig** | |
| | **Digwyddiad nad yw'n ymosodol** | **Digwyddiad ymosodol** |
| **Cam 1** Rhybudd | Atgoffa pob rhiant<br>↓<br>Llythyr rhybuddio gan y Pennaeth | ↓ |
| **Cam 2** Ymgais i gyfryngu | **Cyfarfod adferol:** Lle bo'n berthnasol ac os bydd yn dderbyniol/briodol (bydd yr ysgol yn penderfynu ar y cyfranogwyr perthnasol a allai gynnwys Partneriaeth Diogelwch Cymunedol) | ↓ |
| **Cam 3** Gwaharddiad sy'n amodol ar adolygiad | Bydd y Pennaeth yn ysgrifennu i osod cyfyngiadau a/neu waharddiad, gan ganiatáu i rieni gael ?? o ddiwrnodau ysgol i gyflwyno sylwadau<br><br>cc: Cadeirydd y Llywodraethwyr | |
| **Cam 4** Adolygiad (o fewn 15 niwrnod ysgol o'r gwaharddiad cychwynnol) | **Naill ai:**<br>Bydd Cadeirydd y Llywodraethwyr yn cadarnhau'r gwaharddiad<br><br>cc: Pennaeth | **Neu:**<br>Bydd Cadeirydd y Llywodraethwyr yn codi'r gwaharddiad<br><br>cc: Pennaeth |
| **Cam 5** Adolygiad pellach yn dibynnu ar gyfnod y gwaharddiad | Bydd y Llywodraethwyr yn adolygu ac yn cadarnhau'r gwaharddiad<br><br>cc: Pennaeth | Bydd y Llywodraethwyr yn adolygu ac yn codi'r gwaharddiad<br><br>cc: Pennaeth |
| **Cam 6** Camau dilynol | Camau dilynol i geisio Gwaharddeb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol neu Hysbysiad Gwarchod y Gymuned ar y cyd â'r heddlu | |

**Canllawiau Eraill a Thempledi ar gyfer Ysgolion**

Adnoddau cyfreithiol yr awdurdod lleol ar gyfer ysgolion: Llythyrau templed gwasanaethau cyfreithiol ar gyfer addysg ac ysgolion - porth y staff (swansea.gov.uk)

Arferion ac egwyddorion i ysgolion ar gyfer defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol - Hwb (llyw.cymru)

Llinell gymorth diogelwch ar-lein i weithwyr proffesiynol - UK Safer Internet Centre

Templed polisi ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol: Hwb (llyw.cymru)